| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Ydych chi'n cofio? |
| Disgrifiad: | Darllen a deall / Adalw gwybodaeth |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Sgìl Rhaglen Astudio posib: | Darllen – darllen a deall – ymateb a dadansoddi<br>Ysgrifennu – trefnu syniadau a gwybodaeth -Strwythur a threfn |
| Testun T. Llew Jones | *Trysor y Môr-ladron* |
| Offer angenrheidiol: | • Copi o *Trysor y Môr-ladron* tud. 190-198<br>• Taflen cwestiynau 'Ydych chi'n cofio?' |
| Trefn a awgrymir: | • Darllenwch dudalennau 190-198 gyda'r/i'r dysgwyr.<br>• Cyflwynwch y daflen gwestiynau.<br>• Y dysgwyr yn cwblhau'r dasg yn unigol.<br>• Yr atebion cywir:<br>1. Gallent glywed sŵn rhwyfo yn dod o'r llong.<br>2. Roedd hi'n nos.<br>3. Daliodd Harri, Ieuan a Ned eu hanadl wrth i'r Sbaenwyr rwyfo heibio iddynt.<br>4. Ned aeth i fyny cadwyn/tsaen angor y *Santa Maria* yn gyntaf.<br>5. Roedd cyllell rhwng dannedd Harri Morgan wrth iddo ymuno ag Ieuan ar fwrdd y llong.<br>6. Cafodd Ieuan ei frathu ar ei foch gan gleddyf y Sbaenwr.<br>7. Daeth y carcharorion o long y *Sea Hope.*<br>8. Gyrrodd Harri wyth neu naw o'r morwyr i fyny'r rigin er mwyn lledu'r hwyliau.<br>9. Roedd Harri Morgan yn bwriadu mynd i Maracaibo i chwilio am y trysor. Ateb personol y dysgwr....<br>10. Ateb personol y dysgwr.... |
| Gweithgareddau gwahaniaethol: | Y dysgwyr yn creu eu cwestiynau eu hunain.<br>Gall y dysgwyr weithio gyda phartner. |